



## Adroddiad Arolygu ar

**Maes y Rhyddid**

**Maes y Rhyddid**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**

**Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad**

15 Hydref 2021

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.**

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

[psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

# Ynglŷn â Maes y Rhyddid

|   |   |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir   | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio      |
| Darparwr cofrestredig   | Values in Care Ltd  |
| Lleoedd cofrestredig  | 5   |
| Iaith y gwasanaeth  | Saesneg   |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru                          | 26/09/2019  |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at Gynnig Rhagweithiol. |

## Crynodeb

Mae Maes y Rhyddid yn cynorthwyo ffyrdd o fyw iach a gall pobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae gweithwyr gofal yn deall hoffterau, trefniadau arferol ac anghenion gofal pobl. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o ddiddordebau a gweithgareddau cymunedol. Mae'r asesiadau risg yn fanwl ac yn gyfredol. Mae'r arferion meddyginiaeth yn ddiogel. Mae pobl, perthnasau a gweithwyr proffesiynol yn cynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu cynlluniau personol ac yn mynychu adolygiadau rheolaidd. Mae'r adborth oddi wrth deuluoedd a phobl yn dangos eu bod nhw'n gwerthfawrogi'r gwasanaeth y maent yn ei gael.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae trefniadau atal a rheoli heintiau da ar waith. Mae'r gwaith o reoli recriwtio yn effeithiol. Byddai gwella amllder sesiynau goruchwylio a chwblhau hyfforddiant staff yn fuddiol. Mae'r staff yn teimlo'n fedrus ac wedi eu cefnogi yn eu rolau. Mae gan yr unigolyn cyfrifol drosolwg da o'r gwasanaeth ac mae trefniadau rheoli effeithiol yn sicrhau bod y gofal a ddarperir o safon dda.

**Llesiant**

---

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pobl i gael dewis a rheolaeth. Mae cofnodion yn dangos bod pobl yn cael cefnogaeth i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu bywyd beunyddiol. Mae'r gwasanaeth yn siarad â phobl allweddol wrth gwblhau cynlluniau personol. Mae trefniadau arferol a diddordebau unigolion yn cael eu cydnabod ac mae pobl yn cael eu cynorthwyo mewn ffordd y maent yn ei hoffi. Mae ystafelloedd gwely sydd wedi'u personoli yn helpu i ddarparu ymdeimlad o berthyn. Mae cyfarfodydd preswylwyr yn cael eu cynnal er mwyn i bobl gael y cyfle i roi adborth ar yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen ei wella neu ei ddatblygu ymhellach. Mae asesiadau galluedd a phenderfyniadau budd pennaf yn unol â deddfwriaeth gyfredol. Mae'r cyfyngiadau wedi eu lleihau fel y gall pobl fanteisio ar gymaint o annibyniaeth â phosib.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl. Mae lefelau staff digonol yn sicrhau bod pobl yn cael y gofal iawn ar yr adeg iawn. Mae cydberthnasau cadarnhaol â gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn sicrhau bod pobl yn cadw mor iach ag y gallent fod. Mae'r amgylchedd wedi ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn darparu awyrgylch pleserus i bobl fyw ynddo. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi deietau iach a chyfleoedd am ymarfer corff rheolaidd. Mae ymddygiadau a allai fod yn heriol wedi'u rheoli'n dda ac yn cael eu deall. Mae'r gwasanaeth yn ceisio adborth rheolaidd oddi wrth bobl a'u perthnasau i sicrhau eu bod nhw'n hapus gydag ansawdd y gofal a chymorth a ddarperir.

Mae systemau yn amddiffyn pobl rhag risg a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu pobl ac maent yn adrodd unrhyw faterion i'r rheolwr yn hyderus. Ystyrir materion ynglŷn â chydawnsedd ar gyfer unrhyw un newydd sydd yn cael ei dderbyn i'r cartref. Mae'r gwasanaeth yn adrodd ar ddamweiniau a digwyddiadau mewn dull amserol. Mae gweithwyr gofal yn gyfarwydd ag asesiadau, sydd yn darparu strategaethau i leihau risgiau iddynt eu hunain ac i eraill. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau tîm o staff cyson drwy ddefnyddio staff eraill yn y sefydliad i gyflenwi unrhyw achosion o ddiffyg staff. Deallir polisïau rheoli heintiau ac mae'r defnydd o gyfarpar diogelu personol yn unol â'r canllawiau.

---

Mae'r gwasanaeth yn cynnig gofal sydd canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cefnogi canlyniadau personol. Cydnabyddir cryfderau unigol yn y cynlluniau personol ac maent yn cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosib. Mae'r gweithwyr gofal yn dangos ymroddiad i gyflawni'r canlyniadau gorau posib i bobl. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gweithgareddau unigol a grŵp ac mae pobl yn elwa o gael rhaglenni personol dyddiol. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd yr awyrgylch yn y gwasanaeth yn gyfeillgar a hamddenol gyda phobl i weld yn esmwyth wrth sgwrsio gyda staff. Dywedodd un unigolyn wrthym sut yr oedd yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau, a dangosodd ei ystafell wely i ni, yr oedd wedi helpu i'w haddurno. Roedd aelodau teuluol yn ganmoliaethus ynglŷn â'r gwasanaeth, gan ddisgrifio'r gofal "*yn anhygoel*", "*yn rhagorol*" ac "*yn llygad ei le*", a'u bod "*yn hyderus eu bod nhw [y staff] yn gwneud gwaith penigamp*".

Mae'r gwasanaeth yn cynnal a chadw cynlluniau personol cywir a chyfredol. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym eu bod nhw'n cael cyfle i edrych ar y cynlluniau cyn darparu gofal. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r anghenion gofal cyfredol. Mae'r cynlluniau wedi cael eu personoli, i gynnwys gwybodaeth am gefndir pobl a'u harferion. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi gwybodaeth glir am yr unigolyn a sut y mae'n hoffi cael ei gynorthwyo. Mae'r gweithwyr gofal yn cymryd amser i ddeall dulliau cyfathrebu unigol, gan gynnwys iaith arwyddion neu ddangosyddion dieiriau. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus wrth adnabod y newidiadau yn lles emosiynol pobl. Mae hyn yn cynnwys technegau cytunedig i isgyfeirio sefyllfaoedd a allai fod yn heriol. Mae cyswllt rheolaidd â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol amrywiol yn sicrhau bod pobl yn aros mor iach â phosib. Mae'r gwasanaeth yn cynnal adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod cynlluniau personol yn adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn anghenion ac amgylchiadau unigolion.

Rheolir y gwaith o roi meddyginiaethau'n dda. Mae trefniadau diogel ar gyfer storio meddyginiaeth ac mae cofnodion yn cael eu cwblhau yn gywir. Rhoddir cymorth i bobl i fynychu apwyntiadau meddygol a derbyn ymweliadau gan weithwyr proffesiynol pan fydd angen. Mae'r awdurdodiadau cywir ar waith ar gyfer y bobl hynny nad ydynt yn gallu rhoi cydsyniad i roi meddyginiaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant meddyginiaeth i sicrhau bod eu harferion yn aros yn ddiogel ac effeithiol. Mae gan y gwasanaeth bolisi meddyginiaeth cyfredol ac mae cofnodi tymheredd ystafell ac oergell yn sicrhau bod meddyginiaeth yn parhau'n effeithiol.

---

Mae pobl yn elwa o amgylchedd diogel sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r safle wedi'i addurno i safon dda ac mae'r cofnodion yn dangos bod atodlenni glanhau yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Mae ardaloedd cymunol wedi eu haddurno'n dda ac yn olau ac agored i'r awyr. Mae gardd fawr wedi'i chadw'n dda ac ystafell synhwyrdd i bobl eu mwynhau. Mae ceisiadau ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn cael eu gwneud mewn modd amserol. Gwelsom sylweddau peryglus o dan glo yn ddiogel a chyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol ar y safle. Mae cofnodion yn dangos tystiolaeth o Gynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng. Mae ymarferion tân rheolaidd yn cefnogi pobl i adael y cartref yn ddiogel os bydd tân. Mae gwiriadau a mesurau diogelwch mewn perthynas â thystysgrifau tân, gosod nwy a chofnodion diogelwch yn foddhaol a chyfredol. Mae'r drefn arferol i brofi ymwelwyr yn helpu hefyd i leihau risgiau posib oddi wrth COVID-19.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y gwasanaeth systemau sicrhau ansawdd effeithiol ar waith. Mae'r tîm rheoli yn cynnal lefel dda o drosolwg drwy gadw cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cwblhau ymweliadau ac adroddiadau ysgrifenedig i sicrhau bod y gwasanaeth yn perfformio ar ei orau. Mae'r polisïau yn gyfredol ac yn ymddangos yn fanwl. Dangosodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â hwy ddealltwriaeth ymarferol dda o bolisïau a gweithdrefnau. Mae'r gwaith o reoli digwyddiadau a gweithdrefnau disgyblu staff, a chadw cofnodion ohonynt, yn effeithiol. Mae cofnodion cyfarfodydd tîm yn dangos bod staff yn cael eu diweddarau ynglŷn â newidiadau i bolisïau neu ymarfer. Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn gweithio tuag at Gynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg drwy gynnig dogfennau amrywiol yn Gymraeg. Mae hyfforddiant dysgu Cymraeg ar gael i staff sydd yn dangos diddordeb mewn dysgu'r iaith.

Mae diwylliant agored a chynorthwyol o fewn y gwasanaeth. Adroddodd y rheolwr fod tîm o staff sefydlog yn gweithio o fewn y gwasanaeth. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym fod ganddynt "*dîm o staff arbennig*" a'i fod "*yn lle hapus i weithio ynddo*". Gwnaethom arsylwi ar staff yn gweithio yn dda gyda'i gilydd fel tîm a gwelsom ryngweithio cyfeillgar rhwng staff a phobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn adrodd eu bod nhw'n teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan y tîm rheoli a dywedasom wrthym fod rheolwyr yn cynnal presenoldeb gweladwy yn y cartref. Mae'r tîm i gyd yn adrodd eu bod yn teimlo'n hyderus wrth fynd at y rheolwr, yr oeddent yn ei ddisgrifio fel "*da*" ac "*yn gynorthwyol*." Dywedodd aelodau teuluol wrthym fod y cartref yn cynnal llinellau cyfathrebu da. Dywedodd un unigolyn "*eu bod yn fy niweddarau*" a dywedodd un arall fod y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn hawdd mynd atynt a bod y cartref "*yn lle bywiog*".

Mae angen gwella goruchwyliaeth a hyfforddiant. Dywedodd gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â hwy eu bod nhw'n teimlo eu bod wedi cael eu hyfforddi yn ddigonol a'u bod yn ddigon fedrus i wneud eu gwaith. Gwelsom dystiolaeth bod y darparwr yn trefnu hyfforddiant i'r staff ymhob agwedd. Fodd bynnag, mae cofnodion hyfforddi yn dangos nad yw hyfforddiant craidd ac arbenigol yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlenni a drefnwyd ar bob adeg. Cadarnhaodd y tîm rheoli y byddai camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn. Cadarnhaodd yr adborth a dderbyniwyd oddi wrth y gweithwyr gofal eu bod nhw'n hapus gydag amlder ac ansawdd goruchwyliaeth. Roedd cofnodion goruchwyllo a welsom yn dangos rhai bylchau yn yr oruchwyliaeth a dderbyniwyd gan staff. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae'r rhain yn feysydd i'w gwella a disgwylwn i'r darparwr gymryd camau.

Mae gwiriadau cyn cyflogi yn effeithiol ac mae lefelau staffio yn ddigon gadarn. Mae gwiriadau recriwtio a wnaed gan y gwasanaeth yn sicrhau bod staff o gymeriad da a bod ganddynt y sgiliau a chymwysterau angenrheidiol. Mae rotâu yn dangos bod niferoedd digonol o staff gofal ar ddyletswydd i ddarparu gofal a chymorth amserol. Nid yw'r

gwasanaeth yn defnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflenwi ar gyfer diffyg staff er mwyn sicrhau bod pobl yn derbyn cymorth oddi wrth dîm cyson a gwybodus o staff.



### Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

| Statws                | Ystyr pob un   |
|-----------------------|--|
| <b>Newydd</b>         | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.  |
| <b>Adolygwyd</b>      | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| <b>Ni chyflawnwyd</b> | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.   |
| <b>Cyflawnwyd</b>     | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd.  |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

| Rheoliad     | Crynodeb  | Statws       |
|--------------|---|--------------|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

### Maes/Meysydd i'w Gwella

| Rheoliad | Crynodeb  | Statws     |
|----------|---|------------|
| 36       | Nid yw hyfforddiant wedi'i drefnu yn cael ei gwblhau mewn modd amserol. | Newydd     |
| 36       | Nid yw goruchwyliaeth yn cael ei darparu mewn modd amserol ar bob adeg. | Newydd     |
| 58       | Rheoliad 58(2)(b): Nid yw cofnodion meddyginiaeth yn cael eu cynnal.    | Cyflawnwyd |

**Dyddiad cyhoeddi 30/12/2021**